# Cylch gorchwyl: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2023-26

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2024

Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2024

Archwilio Cymru yw hunaniaeth ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau i archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus Cymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau i ddarparu adnoddau, megis staff, ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn un o bwyllgorau Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys

**Cylch Gorchwyl**


| | |
|---|---|
| Statws | 4 |
| Nod | 4 |
| Cyfrifoldebau | 5 |
| Gweithgareddau Awdurdodedig | 7 |
| Aelodaeth | 7 |
| Ysgrifenyddiaeth | 8 |
| Cyfarfodydd | 8 |
| Mynediad | 9 |
| Cyflwyno Adroddiadau | 10 |
| Rhaglen fusnes | 10 |
| Adolygu perfformiad, hyfforddiant a datblygiad | 10 |
| Adolygu'r cylch gorchwyl | 10 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Rhaglen fusnes | 12 |
| Atodiad 2 – Seiberddiogelwch: rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | 14 |

# Cylch Gorchwyl

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

### Statws

1 Mae'n arfer da bod gan gyrff cyhoeddus, fel Swyddfa Archwilio Cymru, bwyllgor archwilio a rheoli risg, neu bwyllgor cyfatebol, a hwnnw'n cynnwys aelod allanol annibynnol (h.y. aelod nad yw'n aelod o fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru nac yn un o'i chyflogeion).

2 O dan baragraff 29, Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gall rheolau gweithdrefnol Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau y gall Swyddfa Archwilio Cymru ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt. Fodd bynnag, mae paragraff 29(3) Atodlen 1 Deddf 2013 yn gwahardd dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru i bwyllgor ag unrhyw un nad yw'n aelod o Swyddfa Archwilio Cymru neu nad yw'n un o'i chyflogeion

3 O ganlyniad, corff ymgynghorol yw'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a sefydlwyd gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac nid yw'n arfer unrhyw swyddogaethau a ddirprwywyd iddo gan y Bwrdd. Mae'n rhoi cyngor yn unol â'i gyfrifoldebau a nodir isod.

### Nod

4 Nod y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd a yw trefniadau archwilio a sicrwydd risg Swyddfa Archwilio Cymru:

a) yn ategu ei swyddogaethau statudol a'i nodau strategol;

b) yn ei gwneud yn bosibl cynnal busnes mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus; ac

c) yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.

5 Mae'r Pwyllgor yn cyrraedd y nod yma trwy:

a) adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd i ddiwallu anghenion y Bwrdd ac anghenion y Swyddog Cyfrifyddu;

b) adolygu uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol;

c) darparu barn ynglŷn â pha mor dda y mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu'n cael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ac i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran stiwardiaeth ac atebolrwydd.

## Cyfrifoldebau

6 Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw trefniadau sicrwydd Swyddfa Archwilio Cymru gan gynnwys:

a) y trefniadau asesu risg a rheoli risg, yn enwedig adolygu'r canlynol a chynghori arnynt –

(i) y strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei pharodrwydd i dderbyn risg

(ii) prosesau asesu risg Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfan sy'n goleuo prosesau penderfynu gweithredol

(iii) gallu Swyddfa Archwilio Cymru i adnabod a rheoli risg

(iv) cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg, gan gynnwys ei mynediad at adnoddau a gwybodaeth i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol, heb unrhyw gyfyngiadau gan y rheolwyr na chyfyngiadau eraill

(v) ymatebolrwydd y rheolwyr i asesiadau risg;

b) rheoli risg seiber, gan gynnwys strategaethau priodol i liniaru risg (atodiad 2);

c) uniondeb y datganiadau ariannol gan gynnwys –

(i) cysondeb polisïau cyfrifyddu a newidiadau iddynt

(ii) y dulliau a ddefnyddir i roi cyfrif am drafodion arwyddocaol neu anarferol lle mae dulliau gwahanol yn bosibl

(iii) pa un a yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi dilyn safonau cyfrifyddu priodol ac wedi llunio amcangyfrifon a dyfarniadau priodol gan ystyried barn yr archwilydd allanol

(iv) eglurder datgeliadau yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r cyd-destun y gwneir y datgeliadau hynny ynddo

(v) yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd gyda'r datganiadau ariannol

(vi) arsylwadau a sicrwydd a gafwyd arnynt o weithgarwch a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol;

d) yr amgylchedd rheolaeth fewnol, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau ariannol mewnol a systemau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru a'r datganiadau sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon

e) trefniadau llywodraethu, yn enwedig –

(i) digonolrwydd a diogelwch trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i'w gyflogeion a chontractwyr godi pryderon, yn gyfrinachol, ynghylch camwedd posibl mewn materion adrodd ariannol neu faterion eraill, gan gynnwys pa un a ydynt yn ei gwneud yn bosibl cynnal ymchwiliad

cymesur ac annibynnol i faterion o’r fath a chymryd camau dilynol priodol

(ii) gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru i atal a chanfod twyll;

(iii) systemau a rheolaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer atal llwgrwobrwyo a chael adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfio

(iv) adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian a digonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau a rheolaethau atal gwyngalchu arian Swyddfa Archwilio Cymru.

f) y trefniadau archwilio mewnol, yn enwedig –

(i) effeithiolrwydd swyddogaeth archwilio mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyd-destun y system rheoli risg ar y cyfan

(ii) penodi a diswyddo pennaeth y swyddogaeth archwilio mewnol

(iii) cylch gorchwyl y swyddogaeth archwilio mewnol gan gynnwys ei mynediad at adnoddau a gwybodaeth i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â’r safonau proffesiynol perthnasol, heb unrhyw gyfyngiadau gan y rheolwyr na chyfyngiadau eraill

(iv) y cynllun archwilio mewnol blynyddol

(v) adroddiadau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan yr archwilydd mewnol

(vi) ymatebolrwydd y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd mewnol;

g) y trefniadau archwilio allanol, yn enwedig –

(i) y broses o benodi archwilwyr allanol, er mwyn i’r Bwrdd gyflwyno argymhelliad ynghylch y penodiad hwnnw i Bwyllgor Cyllid y Senedd

(ii) y berthynas â’r archwilydd allanol

(iii) gwneud sylwadau ar delerau’r ymrwymiad a chwmpas yr archwiliad

(iv) y cynllun archwilio blynyddol, gan sicrhau ei fod yn gyson â chwmpas yr ymrwymiad archwilio

(v) adolygu canfyddiadau’r archwiliad, gan gynnwys unrhyw faterion pwysig a godwyd, unrhyw ddyfarniadau cyfrifyddu ac archwilio, lefelau’r gwallau a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad ac effeithiolrwydd yr archwiliad

(vi) adolygu llythyrau sylwadau’r rheolwyr at yr archwilydd allanol

(vii) adolygu llythyr y rheolwyr ac ymateb y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd

(viii) adolygu’r polisi ar gyflenwi gwasanaethau heblaw archwilio gan yr archwilydd allanol, gan ystyried unrhyw ganllawiau moesegol perthnasol.

7 Mae’r Pwyllgor yn cynghori’r Bwrdd a’r Swyddog Cyfrifyddu ar gais, neu fel sy’n briodol yn ei dyb ef.

## Gweithgareddau awdurdodedig

8 Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ni all y Pwyllgor arfer unrhyw swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru ac mae felly'n ymgynghorol o ran ei natur.

9 Mae'r Bwrdd yn awdurdodi'r Pwyllgor i wneud y canlynol:

a) ystyried unrhyw weithgarwch o fewn ei gyfrifoldebau a gwneud sylwadau a chynghori ar drefniadau llywodraethu o fewn Swyddfa Archwilio Cymru;

b) cael unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall gan staff Swyddfa Archwilio Cymru y mae eu hangen arno i roi cyngor;

c) yn unol â pholisïau corfforaethol a chyda chytundeb y Bwrdd, cael cyngor allanol, arbenigol fel sy'n angenrheidiol yn ei dyb ef i gyflawni ei gyfrifoldebau gan gynnwys cael gwybodaeth ddibynadwy, gyfoes am drefniadau archwilio a rheoli risg mewn sefydliadau eraill.

## Aelodaeth a Chworwm

10 Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o blith y cyflogeion, tri aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac aelod annibynnol allanol (nad yw'n aelod nac yn un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru), y maent i gyd yn cael eu penodi gan y Bwrdd. Mae un o'r tri aelod anweithredol yn cael ei benodi gan y Bwrdd yn Gadeirydd y Pwyllgor. Yr unigolion ag aelodaeth o'r fath yw'r rhai a gofnodir fel rhai a benodwyd o bryd i'w gilydd yng nghofnodion y Bwrdd.

11 Caiff penodiadau i'r Pwyllgor eu pennu gan y Bwrdd ac maent am gyfnodau o hyd at bedair blynedd a all gael eu hestyn am gyfnod pellach o hyd at bedair blynedd. Wrth benodi'r Cadeirydd ac aelodau bydd y Bwrdd yn sicrhau bod y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd yn meddu ar yr ystod o sgiliau y mae eu hangen i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaeth ar y cyfan.

12 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn i unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd neu ei Bwyllgorau fod â chworwm, bod rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol fod yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd. Gan nad yw'r aelod annibynnol yn aelod o'r Bwrdd, y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yw presenoldeb tri aelod anweithredol o'r Bwrdd.

13 Os nad yw aelod anweithredol o'r Bwrdd yn gallu bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor gallant, yn amodol ar gael cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor ymlaen llaw (neu, yn eu habsenoldeb, Gadeirydd y Bwrdd) a hysbysu Ysgrifennydd y Bwrdd, drefnu bod aelod anweithredol arall o'r Bwrdd (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor) yn bresennol mewn cyfarfod penodedig yn eu lle. Bydd y dirprwy aelod yn aelod o'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod hwnnw a bydd yn cyfranogi yn y cyfarfod gyda'r un dyletswyddau a chyfrifoldebau ag aelod.

14 Os nad yw aelod anweithredol o'r Bwrdd yn gallu bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor ac os na phenodir dirprwy, gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn i'r

aelod o blith y cyflogeion adael y cyfarfod ac aros yn absennol i'w alluogi i fod â chworwm.

15 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cofnodi unrhyw gam gweithredu i reoli'r cworwm yng nghofnodion y cyfarfod (e.e. penodi dirprwy ar ran aelod anweithredol neu fod aelod o'r Bwrdd o blith y cyflogeion yn gadael y cyfarfod).

## Ysgrifenyddiaeth

16 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

a) sicrhau bod y Pwyllgor wedi'i gyfansoddi'n briodol ac yn cael ei gynghori'n briodol a bod cydlynu eglur rhyngddo ef, y Bwrdd a phwyllgorau eraill y Bwrdd;
b) cynnal cyswllt â'r Cadeirydd ar y rhaglen waith;
c) sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth a phapurau mewn modd amserol i'w gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i'r materion;
d) paratoi cofnodion drafft cyfarfodydd i gael eu cymeradwyo gan y Cadeirydd cyn iddynt gael eu dosbarthu i'r aelodau;
e) cadw cofnodion priodol o fusnes y Pwyllgor;
f) drafftio deunydd ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor; ac
g) rhoi unrhyw gymorth ymarferol angenrheidiol arall.

## Cyfarfodydd

17 Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol os yw hynny'n angenrheidiol yn ei dyb ef. Gall aelodau'r Pwyllgor, Cadeirydd y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu, y Pennaeth Archwilio Mewnol neu'r archwilwyr allanol ofyn i'r Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol os ydynt yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Ni fydd y Cadeirydd yn gwrthod unrhyw geisiadau rhesymol.

18 Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu galw gan ei ysgrifennydd ar gais y Cadeirydd. Oni bai y cytunir fel arall, bydd yr ysgrifennydd yn anfon rhybudd at aelodau o bob cyfarfod a hwnnw'n cadarnhau'r lleoliad, y dyddiad a'r amser ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod yn ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd papurau ategol yn cael eu hanfon yr un pryd.

19 Oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu'n wahanol ar gyfer cyfarfod penodol, nid oes angen i gyfarfodydd y Pwyllgor ddigwydd mewn un lle ffisegol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cyfranogi (ac yn rhan o'r cworwm) yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, neu ran o un o gyfarfodydd y Pwyllgor, pan ydynt yn gallu cyfathrebu'n gyfoes gyda'i gilydd trwy unrhyw ddull. Os nad yw holl aelodau'r Pwyllgor sy'n cyfranogi mewn cyfarfod yn yr un lle, gallant benderfynu y dylid trin y cyfarfod fel un sy'n digwydd ble bynnag y mae unrhyw un ohonynt.

20 Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor (ac ar yr amod bod yr holl aelodau eraill yn bresennol), gall yr aelodau sy’n weddill ethol un ohonynt i gadeirio’r cyfarfod. Bydd un o gyfarfodydd y Pwyllgor a gynullwyd yn briodol ac y mae cworwm yn bresennol ynddo’n gymwys i arfer cyfrifoldebau a gweithgareddau ymgynghorol awdurdodedig y Pwyllgor.

21 Gall aelodau nad ydynt yn gallu bod yn bresennol godi unrhyw bwyntiau gyda’r Cadeirydd cyn y cyfarfod y mae a wnelont ag ef.

22 Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu mynychu gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid, y Pennaeth Archwilio Mewnol, a chynrychiolydd archwilio allanol. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw aelodau eraill o staff Swyddfa Archwilio Cymru fod yn bresennol i’w gynorthwyo gyda’i drafodaethau am unrhyw fater penodol. Gall Cadeirydd y Bwrdd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor hefyd a gall aelodau o’r Bwrdd nad ydynt wedi’u penodi i’r Pwyllgor fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn amodol ar ganiatâd Cadeirydd y Pwyllgor.

23 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai neu bob un o’r rhai sy’n bresennol fel arfer ond nad ydynt yn aelodau adael cyfarfod yn llwyr, neu adael unrhyw ran o gyfarfod, i hwyluso trafodaeth agored a di-flewyn-ar-dafod am faterion penodol; bydd cofnodion yn cael eu cymryd o drafodaethau o’r fath.

24 Bydd pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn darparu ar gyfer trafodaethau preifat gyda’r Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd archwilio allanol.

25 Gall y Bwrdd a’r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i aelodau’r Pwyllgor roi cyngor pellach y tu allan i gylchoedd cyfarfodydd ar faterion penodol o bryd i’w gilydd.

26 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfathrebu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i gydgysylltu eu gweithgareddau a’u gweithredoedd fel y bo’n briodol.

27 Dylai un o aelodau’r Pwyllgor neu rywun sy’n bresennol sy’n dod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol mewn perthynas â materion sy’n cael eu trafod gan y Pwyllgor hysbysu’r Cadeirydd ymlaen llaw neu, os nad yw hyn yn bosibl, ei ddatgan yn y cyfarfod a, lle y bo angen, gadael y cyfarfod tra bo’r eitem berthnasol ar yr agenda’n cael ei thrafod.

28 Trwy eithriad, gall y Pwyllgor gael eitemau o fusnes y tu allan i gylch arferol cyfarfodydd, er enghraifft os ceir mater annisgwyl y mae gofyn ymateb iddo ar unwaith neu ar frys. Bydd y trefniadau ar gyfer cynnull cworwm, dosbarthu papurau a chofnodi trafodaethau’r Pwyllgor a nodir yn y cylch gorchwyl hwn yn berthnasol.

## Mynediad

29 Gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn am drafodaethau preifat gyda Chadeirydd y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu, y Pennaeth Archwilio Mewnol, staff Swyddfa Archwilio Cymru a chynrychiolydd archwilio allanol fel y bo’n briodol.

30 Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor hefyd fynediad uniongyrchol at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd a gall ei hysbysu am faterion sy'n achosi pryder. Cyn arfer yr hawl hon, gall y Cadeirydd gynnal cyswllt fel y bo'n briodol â Chadeiryddion y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i drafod y pryderon a'r dull gweithredu .

31 Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd archwilio allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Cyflwyno Adroddiadau

32 Dylai'r drafodaeth ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor gael ei chofnodi'n gywir. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ffurfiol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl pob cyfarfod.

33 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ffurfiol yn flynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Bydd amseriad yr adroddiad o gymorth i gwblhau'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

34 Gellir gofyn i aelod annibynnol y Pwyllgor fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd o bryd i'w gilydd, ar gais y Bwrdd.

## Rhaglen fusnes

35 Mae Atodiad 1 yn crynhoi rhaglen fusnes y Pwyllgor a gaiff ei chadarnhau ym mhob cyfarfod.

## Adolygu perfformiad, hyfforddiant a datblygiad

36 Bydd y Cadeirydd yn adolygu perfformiad aelodau'n flynyddol yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad a sefydlwyd at y diben hwnnw. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn adolygu perfformiad y Cadeirydd yn flynyddol.

37 Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr angen am raglen sefydlu, hyfforddiant a datblygiad ar sail barhaus.

38 Bydd y Pwyllgor yn hysbysu'r Bwrdd ynghylch unrhyw ddiffygion ymddangosol y gall eu hadnabod o bryd i'w gilydd yn sgiliau cyfunol ei aelodaeth.

## Adolygu'r cylch gorchwyl

39 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r cylch gorchwyl yma bob tair blynedd ac yn ei gyflwyno, gydag unrhyw gynnig i'w ddiweddaru, i'r Bwrdd er mwyn i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo hynny.

40 Bydd y Pwyllgor yn asesu ei effeithiolrwydd yn flynyddol, gan adrodd ar y canlyniad yn ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd.

# Atodiad 1

## Rhaglen fusnes

1 Mae rhaglen fusnes y Pwyllgor yn cwmpasu cylch blynyddol o bedwar cyfarfod. Canllaw yw'r rhaglen a ddisgrifir isod ac nid yw'n rhagwahardd addasiadau mewn amseriad yn ystod y flwyddyn nac yn rhagwahardd ystyried busnes ychwanegol a allai godi.

2 Eitemau sefydlog ar holl agendâu'r Pwyllgor yw:

a) cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor i gael eu cymeradwyo;

b) y log o gamau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor wedi'i ddiweddaru fel y bo'n briodol (i'w gymryd fel materion yn codi);

c) rhaglen waith y Pwyllgor i gael ei hadolygu'n parhaus;

d) adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n crynhoi –

- gwaith a gyflawnwyd (a chymhariaeth â gwaith sydd yn yr arfaeth)
- unrhyw newidiadau i'r strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun blynyddol
- materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o waith archwilio mewnol
- unrhyw faterion darparu adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion archwilio mewnol;

e) adroddiadau archwilio mewnol yn unol â'r amserlen a sefydlwyd gan y cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn (gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn). Mae adroddiadau'n cynnwys ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion;

f) adroddiad ar gynnydd (lle y bo'n briodol) gan y cynrychiolydd archwilio allanol, yn crynhoi gwaith a wnaed a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg;

g) adolygiad risg strategol a ddefnyddir gan y Pwyllgor i archwilio un risg strategol yn fanwl i bennu a yw'r trefniadau rheoli risg yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol;

h) asesiad o berfformiad archwilwyr mewnol ac allanol.

3 Mae'r cylch busnes amlinellol yn cynnwys:

**Cyfarfod 1 (Chwefror)**

- yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft;
- y cynllun archwilio allanol ar gyfer yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- polisïau cyfrifyddu (gan gynnwys unrhyw newidiadau arwyddocaol) a dyfarniadau;
- y strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod;
- y trefniadau atal twyll;
- y gofrestr risgiau gweithredol;
- y gofrestr o wariant ar weithredoedd tendr sengl ac ymgynghoriaeth reoli;

- amlinelliad o adroddiad blynyddol y Pwyllgor i’r Bwrdd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer gwerthuso perfformiad y Pwyllgor.

**Cyfarfod 2 (Mehefin)**

- yr adroddiad blynyddol ar archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, gan gynnwys barn y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- tracio argymhellion archwilio mewnol a gwaith dilynol mewn perthynas â hwy;
- yr adroddiad datgan annibyniaeth blynyddol;
- yr adolygiad blynyddol o drefniadau chwythu’r chwiban;
- yr adolygiad blynyddol o lywodraethu gwybodaeth (adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth);
- adroddiad blynyddol y Pwyllgor i’r Bwrdd, gan gynnwys:
    - cylch gorchwyl y Pwyllgor i gael ei adolygu, a
    - hunanasesiad y Pwyllgor o’i berfformiad.
- adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol;
- adroddiad yr archwilydd allanol i’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu (ISA260); a
- llythyr sylwadau’r archwilydd allanol.

**Cyfarfod 3 (Medi)**

- y gofrestr risgiau gweithredol;
- canlyniad yr ymarfer dysgu ar ôl y prosiect ar yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- adroddiad y swyddog adrodd am wyngalchu arian;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro ar gyfer swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol; a hefyd
- yr amserlen amlinellol ar gyfer cynhyrchu’r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

**Cyfarfod 4 (Rhagfyr)**

- y strategaeth risg a’r trefniadau rheoli risg; a hefyd
- tracio argymhellion archwilio mewnol a gwaith dilynol mewn perthynas â hwy.

# Atodiad 2

## Seiberddiogelwch: rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

### Detholiad o Lawlyfr Trysorlys E.F. ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg

1 Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y sefydliad yn rheoli ei risg seiber yn briodol gan gynnwys strategaethau priodol ar gyfer lliniaru risg. Nid yw hyn yn golygu bod angen deall manylion llawn y dechnoleg gysylltiedig; gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gadarnhau bod y fframwaith priodol yn ei le a bod mentrau monitro a gwella parhaus wedi'u mabwysiadu ac yn cael eu cynnal. Mae'n bwysig deall goddefiant y sefydliad ar gyfer risg a gwerthuso'r penderfyniadau ynglŷn â risg a wneir gan y rheolwyr. Dylai parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg roi arweiniad ar gyfer archwilio cyfleoedd i rannu gwybodaeth a defnyddio technoleg.

2 Yn arbennig, i asesu seibergadernid y sefydliad, dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg werthuso a yw'r sefydliad wedi:

**Llywodraethu**

- rhoi rheolaethau ar waith i baratoi ar gyfer, amddiffyn rhag, canfod ac ymateb i ymosodiadau seiber gan gynnwys rheoli canlyniadau digwyddiad seiberddiogelwch.
- sefydlu dull o fonitro effeithiolrwydd ei reolaethau seiberddiogelwch, gan gynnwys lle y bo'n briodol, profi rheolaethau o'r fath, eu hadolygu a chael sicrwydd yn eu cylch.
- adnabod yr asedau gwybodaeth tra phwysig y mae'n dymuno'u hamddiffyn rhag ymosodiad seiber a phwy sy'n gyfrifol amdanynt – boed yn ddata ariannol, yn ddata gweithredol, yn ddata ar gyflogeion, yn ddata ar gwsmeriaid neu'n eiddo deallusol.
- sefydlu ffordd o adnabod a chytuno ar lefel y risg o ymosodiad seiber y mae'r sefydliad yn fodlon ei goddef ar gyfer ased gwybodaeth penodol; pa lefel o risg i seiberddiogelwch yr ystyrir ei bod yn dderbyniol?
- sefydlu fframwaith a chynllun archwilio mewnol ar gyfer risgiau gweithredol sy'n cwmpasu gwahanol feysydd o ran seiberddiogelwch, ac nad yw'n canolbwyntio ar weithrediadau TG yn unig.

**Cudd-wybodaeth am Fygythiadau; Trydydd Partïon a'r Gadwyn Gyflenwi**

- deall pa ddata sy'n gadael y sefydliad a beth yw pen ei daith.
- rhoi prosesau cudd-wybodaeth ar waith i ddeall y bygythiad i asedau'r sefydliad gan gynnwys dealltwriaeth fanwl ynghylch pa gyflenwyr/partneriaid sy'n cysylltu â'r sefydliad a sut.
- profi cynnydd yn nifer yr achosion o danseilio diogelwch gwybodaeth.

**Strwythur ac Adnoddau**

- sicrhau'r sgiliau a phrofiad cywir yn fewnol i gwmpasu pob maes perthnasol.
- sefydlu'r strwythur rheoli cywir, gan gynnwys yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

**Ymateb i Ddigwyddiadau**

- sefydlu cynllun ymateb cyfoes ar gyfer digwyddiadau seiber sydd wedi cael ei ymarfer gan gynnwys camau gweithredu ar wersi a ddysgwyd.

**Pobl, Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth**

- sefydlu rhaglenni hyfforddi a datblygu i addysgu'r gweithlu am risgiau seiber a chyfrifoldebau unigol.
- sefydlu rhaglen o wella'n barhaus neu, lle y bo angen, trawsnewid, i fod â dangosyddion perfformiad priodol sy'n cyd-fynd â'r bygythiad seiber newidiol.

3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn defnyddio Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y sefydliad i ddarparu sicrwydd ynghylch y materion hyn a materion eraill trwy adolygu adroddiad blynyddol gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, gan gynnwys cynnydd ar aeddfedrwydd y sefydliad o ran risg gwybodaeth a seiberddiogelwch, a ategir gan ddiweddariadau bob hyn a hyn lle y bo'n briodol.

4 Bydd yr adolygiad o'r adroddiad blynyddol gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn rhan o'r broses sicrwydd diwedd blwyddyn a bydd y Pwyllgor yn trafod unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg eu cynnwys yn ei argymhelliad ar gyfer y Datganiad Llywodraethu gyda'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

5 Opsiwn pellach ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw ystyried a allai un o'i aelodau ddod yn hyrwyddwr seiberddiogelwch yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (a'r Bwrdd os yw'n aelod) a chefnogi'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.